



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales



Adroddiad a Chyfrifon
2002 - 2003

Comisiynydd Plant Cymru – Y Comisiynydd a'i Dîm



Maria Battle

Is-Gomisiynydd (Diprwy, Cyfraith a Gweinyddiaeth)



Tim Cyfraith a Gweinyddiaeth



Sharon Davies

Rheolwraig Datblygu Systemau



Charlotte Blair

Rheolwraig Cyllid a Gweinyddiaeth




Carol Roberts



Jon Murphy

Nicola Jobbins Cynorthwy-ydd Cyllid



Michelle Holland



Manus Sheridan



Peter Clarke

Comisiynydd Plant Cymru



Sharon Clapton Cynorthwy-ydd Personol



Rhian Davies

Is-Gomisiynydd (Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau)



Tim Polli a Gwerthuso Gwasanaethau



Mair Jones

Uwch Swyddog Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau



Peter Hosking

Uwch Swyddog Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau



Lisa Turnbull

Swyddog Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau



Sara Reid

Is-Gomisiynydd (Cyfathrebu)



Julie Griffiths

Uwch Swyddog Cyfathrebu



Karen Burrows

Swyddog Cyfathrebu




Elin Jones

Swyddog Cyfathrebu



Damien Edgell

Gweithiwr Proiect dan hyfforddiant



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Rhagair

Pan fôm yn canolbwyntio ar y tasgau a roddir i ni, mae'r amser yn mynd heibio'n gyflym ac, yn aml, mae'n anodd gwerthfawrogi cymaint yr ydym yn ei gyflawni. Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg dros ein blwyddyn weithredol gyntaf fel tîm llawn ac mae'r twf yn ein gweithgarwch a maint y gwaith a gwblhawyd gennym wedi fy synnu.

Er bod fy ail flwyddyn wedi teimlo yr un mor gyffrous a llawn her â'r gyntaf, mae'r dasg sy'n fy wynebu i a'm tîm yn sylweddol ac weithiau gall sicrhau'r cynnydd yr ydym yn anelu ato ymddangos yn ymdrech anferthol. Fodd bynnag, wrth i chi ddarllen hwn, gobeithio y byddwch chithau yn cael eich calonogi fel minnau – nid yn unig gan y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud gan fy swyddfa i, ond hefyd gan y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y rhai sy'n gweithio trwy bartneriaeth yng Nghymru i wella bywydau plant a phobl ifanc. Ni all Comisiynydd Plant gymryd lle gwasanaethau effeithlon i bobl ifanc ac sy'n sensitif i'w hanghenion a'u gobeithion.

Un o'r negeseuon mwyaf cyson yr wyf wedi'u derbyn gan blant a phobl ifanc Cymru yw'r ymdeimlad clir sydd ganddynt nad yw oedolion yn eu parchu. Mae'r awydd am barch gan y gymdeithas oedolion wedi parhau i fod yn thema gyson o flwyddyn i flwyddyn. Credaf yn angerddol y dylem barchu plant a phobl ifanc fel unigolion sy'n gallu cyfrannu at ein cymdeithas, os rhoddwn gyfle gwirioneddol iddynt wneud hynny.

Yn aml clywn arweinwyr cenedlaethol yn sôn am ddiffyg diddordeb pobl ifanc mewn materion cyhoeddus. O'm profiad i, mae pobl ifanc yn aml yn frwd iawn dros fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau. Yn rhy aml mae'r brwdfrydedd hwn yn cael ei wasgu ohonynt gan

brofiadau cyson o ddifaterwch neu elyniaeth oedolion. Mae'n parhau i'm synnu i ein bod yn disgwyl i bobl ifanc 18 oed fod yn ymwneud yn llawn yn ein prosesau cynrychioliadol pan nad ydym wedi rhoi unrhyw wir brofiad iddynt o wneud penderfyniadau yn y pethau sy'n effeithio arnynt fwyaf. Mae cynnydd radical yng nghyfraniad plant i benderfyniadau yn eu helpu i fagu hyder fel dinasyddion, yn gwella'r gwasanaethau a ddarparwn ar eu cyfer ac yn ei gwneud hi'n anodd i oedolion barhau â rhai o'r syniadau rhyfedd ac anghywir sydd gennym am bobl ifanc. Bydd cyfraniad o'r math hwn, gydag oedolion a phobl ifanc yn cyd-drafod er mwyn cyflawni nodau a rennir, yn helpu i feithrin awyrgylch o gyd-barch.

Ers f'adroddiad diwethaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi parhau i fod yn eiriolwr cryf dros gyfranogiad pobl ifanc yn y broses gwneud penderfyniadau a hoffwn eu canmol am hynny. Fel erioed, mae cryn ffordd i fynd cyn y gallwn ddarbwylo ein pobl ifanc fod gennym agwedd barchus tuag atynt yn gyffredinol. Unwaith eto, manteisïaf ar y cyfle hwn i annog pob oedolyn i ystyried pa gyfleoedd y maent yn eu rhoi i bobl ifanc – yn eu bywydau preifat ac yn eu cyfrifoldebau cyhoeddus – wrth i ni gydweithio i greu gwlad lle mae gan ein pobl ifanc rôl gyfartal, weithredol a balch.

Peter Clarke
Comisiynydd Plant Cymru
Hydref 2003

Cynnwys

Rhagarweiniad	1
RHAN UN:	
Beth ydy Comisiynydd Plant?	3
Yr hyn a wnawn	3
Sut ydym yn gwneud hyn	5
RHAN DAU:	
Beth a wnaethom yn 2002 – 2003?	6
Gwrando, clywed a dysgu	6
Adolygu	7
Ymchwilio	8
Cadw'n bysedd ar y pyls	9
Cyfleu'r neges	9
Adeiladu sefydliad cryf	10
Ffeithiau a ffigurau	11
RHAN TRI:	
Adolygiad y Comisiynydd Plant o'r materion sy'n berthnasol i hawliau a lles plant	15
Y diweddraf ynghylch materion blaenoriaeth 2001 – 2002	15
Tlodi plant	15
Addysg	15
Materion blaenoriaeth 2002 – 2003	16
Gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc	16
Cynllunio	17
Chwarae a hamdden	18
Ymddygiad gwrthgyrmydeithasol	19
RHAN PEDWAR:	
Cyfrifon	21
Nodiadau i'r Cyfrifon	30

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl blant a'r bobl ifanc sydd wedi gweithio gyda ni yn ystod y flwyddyn, naill ai'n bersonol neu drwy atebnôl/backchat. Mae llawer o'u sylwadau a'u lluniau i'w gweld yn yr adroddiad hwn.

Gellir derbyn yr adroddiad hwn mewn fformatau gwahanol ar gais.


**Comisiynydd Plant Cymru,
Tŷ Ystumllwynarth, Llys Siarter,
Phoenix Way, Llansamlet, Abertawe SA7 9FS
Ffôn: 01792 765600 Ffacs: 01792 765601**

**Plas Penrhos, Oak Drive,
Bae Colwyn, Conwy LL29 7YW
Ffôn: 01492 523333 Ffacs: 01492 523336**

**E-bost: post@complantcymru.org.uk
Gwefan: www.complantcymru.org.uk**



Rhan 1



Beth ydy Comisiynydd Plant?

Weithiau, disgrifir Comisiynydd Plant fel amddiffynydd plant a sefydliad hawliau dynol annibynnol ar gyfer plant. Mae'r hyn y mae Comisiynydd Plant yn ei wneud yn union, a sut y cyflawnir hynny, yn amrywio o wlad i wlad – ond buddiannau gorau plant a phobl ifanc sydd bwysicaf iddynt bob amser.

Sefydlwyd swydd Comisiynydd Plant Cymru – y cyntaf o'i bath yn y DU – gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Ehangwyd cylch gwaith y swydd gan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a nodai hefyd ei phrif nod sef diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant Cymru.

Peter Clarke ydy Comisiynydd Plant Cymru. Cychwynnodd ar ei swydd yn 2001 ac mae ef a'i dîm yn bodoli i helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru:

- yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth
- yn cael y cyfleoedd a'r gwasanaethau y maent eu hangen a'u haeddu
- yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi
- â llais yn eu cymunedau ac yn gallu chwarae rhan cyn llawned â phosibl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- yn ymwybodol o'u hawliau a Chonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r brif ffocws ar bawb dan 18 oed sy'n byw yng Nghymru, neu sydd fel arfer yn byw yng Nghymru. Ond gall weithredu hefyd mewn perthynas â phobl ifanc hŷn dan rai amgylchiadau - e.e. os ydynt wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol. Os oes goblygiadau i blant a phobl ifanc heddiw, gall hefyd ymchwilio i bethau a ddigwyddodd i oedolion pan oeddynt yn blant.



Beth mae'r Comisiynydd a'i dîm yn ei wneud?

Dan y ddeddfwriaeth, nid yw rôl y Comisiynydd Plant wedi'i chyfyngu i'r hyn sy'n cael ei ystyried fel arfer yn faterion plant, megis iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Daw cynllunio, cludiant, yr amgylchedd, datblygu economaidd a materion gwledig o fewn cwrpas ei rôl hefyd.

Gall y Comisiynydd:

- adolygu effeithiau polisiau, polisiau arfaethedig a chyflwyno gwasanaethau i blant;
- ymchwilio i achos plentyn neu blant neilltuol os yw'n ymwneud â mater y gellir ei gymhwyso'n fwy cyffredinol i fywydau plant yng Nghymru;
- mynnu gwybodaeth gan asiantaethau neu bobl sy'n gweithredu ar eu rhan, a mynnu bod tystion yn rhoi tystiolaeth ar lw;
- rhoi cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, ac eraill;
- ystyried a chyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch materion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant Cymru. Golyga hyn ei fod yn gallu delio gyda materion nad ydynt yn rhan o gyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol, megis cyfiawnder yr ifanc, y llysoedd teulu a budd-daliadau nawdd cymdeithasol.

Rhaid iddo hefyd:

- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod ymhle y mae ei swyddfeydd a sut i gysylltu ag ef a'i dîm
- annog plant i gysylltu ag ef a'i dîm
- gofyn i blant roi eu barn am ei waith a'i waith yn y dyfodol, a gadael iddynt ddylanwadu ar ei raglen waith

- gwneud yn siwr ei fod ef a'i staff yn mynd i gyfarfod â phlant ble bynnag y maent.
- rhoi sylw neilltuol i blant sy'n 'anodd eu cyrraedd', sy'n dioddef eithrio cymdeithasol neu sydd ar y cyrion mewn rhyw ffordd
- ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mhopeth y mae ef a'i dîm yn ei wneud.

Am gael gwybod mwy?

- Gellir gweld Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 ar wefan Llyfrfa Ei Mawrhydi yn: www.legislation.hms.gov.uk
- Cyflwynwyd deddfwriaeth gan y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2001 a gellir gweld y rhain ar wefan LIEM yn www.waleslegislation.hms.gov.uk
- Mae dogfen ymgynghori'r Cynulliad ar gynigion ar gyfer rheoliadau'r Comisiynydd yn rhoi mwy o fanylion am y cylch gwaith llawn a'r pwerau llawn. Mae'r wybodaeth honno i'w chael ar wefan y Cynulliad: www.cymru.gov.uk/subchildren
- Darperir llawer o wybodaeth a fersiwn hawdd i'w darllen o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ar www.therightssite.org.uk, www.savethechildren.org.uk/rightonline, www.childreninwales.org.uk, www.unicef.org.uk neu www.crights.org.uk
- I gael mwy o wybodaeth am Gomisiynwyr Plant ac ombwdsmyn ar draws Ewrop, gweler www.ombudsnet.org
- Darllenwch y cyflwyniad i'r cyfrifon yn Rhan 4 yr adroddiad hwn.




Y peth gorau am fod yn blentyn yng Nghymru ydy nad oes unrhyw ryfeloedd. Y peth gwaethaf ydy fod gormod o lygredd.

Un o'r pethau gorau am fod yn berson ifanc yng Nghymru ydy fy mod yn gallu siarad iaith wahanol. Mae'n braf gallu gwylio rhaglenni teledu Cymraeg a gwrandao ar fiwsig Gymraeg.

Dwi'n meddwl y dylid cael mwy o glybiau ieuenctid a chlybiau i blant yn eu harddegau - rhywbeth fel clybiau chwaraeon ac ati.





... a sut maent yn gwneud hyn?

Yn Abertawe ac ym Mae Colwyn y mae swyddfeydd y Comisiynydd Plant a'i staff, ond maent yn gweithio ar draws Cymru gyfan. Maent wedi'u rhannu yn dri thîm llai, ond i gyd yn gweithio gyda'i gilydd. Arweinir pob tîm gan Is-Gomisiynydd.

Mae'r **tîm Cyfraith a Gweinyddiaeth** yn rhoi arbenigedd cyfreithiol ac yn delio gyda'r busnes o redeg y sefydliad o ddydd i ddydd.

Mae'r **tîm Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau** yn dadansoddi polisi a dylanwadu arno, yn arfarnu ymarfer ac yn hyrwyddo gwasanaethau gwell i blant.

Mae'r **tîm Cyfathrebu** yn gyfrifol am gysylltu'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc – gan eu cael yn gysylltiedig â'n gwaith a gwneud yn siwr fod eu barn a'u safbwyntiau'n cael eu cyfathrebu i eraill. Mae'r tîm hwn hefyd yn codi ymwybyddiaeth o hawliau plant yn gyffredinol, ac yn trosglwyddo'r neges am y Comisiynydd Plant a beth mae'r timau eraill yn ei wneud, i'r byd ehangach.

Gwaith cynghori

Un o'r ffyrdd yr ydym yn cydweithio ar draws y sefydliad yw gyda gwaith cynghori. Bob diwrnod, cawn alwadau gan blant a phobl ifanc, neu gan oedolion sy'n pryderu yn eu cylch, ac rydym yn rhoi gwybodaeth a chynghor iddynt. Mewn llawer o achosion, mae'r Comisiynydd Plant yn ymyrryd, ac yn gweithio ochr yn ochr â'r plentyn neu'r person ifanc. Weithiau mae angen newid polisi, weithiau mae angen gwella gwasanaeth, weithiau mae'n rhaid cymryd camau cyfreithiol, ac weithiau yr oll sydd ei angen yw rhywun i gyfathrebu â'r plant neu â'r bobl ifanc. Mae'r holl dimau yn rhan o'r rota gwaith cynghori, a daw pob un â'i arbenigedd neilltuol i'r tîm cynghori.

Wel, dwi'n cael fy mwlio yn y coleg. Dydw i ddim yn ei hoffi, ond dyna sut mae bywyd. Dwi disôn am y peth gyda'r coleg, ond dydyn nhw ddim yn gwneud dim, a dydw i ddim yn gwybod beth i'w wneud.

Gwrandwch ar blant!
Dylai plant a phobl ifanc gael yr hawl i fod yn rhydd i fyw.



Rhan 2



Felly beth a wnaethoch yn 2002 – 2003?

Gwrando, clywed a dysgu oddi wrth blant a phobl ifanc

Mae'r Comisiynydd Plant wedi bod yn ymrwymedig o'r cychwyn cyntaf i estyn at blant a phobl ifanc. Mae cyswllt wyneb yn wyneb, gan roi cyfle iddynt drafod eu pryderon gydag ef yn uniongyrchol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Er gwaetha'r gofynion cynyddol arno gyda golwg ar waith yn y swyddfa, mae wedi parhau gyda chyfres drom o ymweliadau, sgysiau cyhoeddus a bod yn bresennol mewn digwyddiadau lle rhoddir llais i blant a phobl ifanc.

Gan fod y niferoedd staff wedi tyfu erbyn hyn, mae'r gweithgarwch hwn wedi'i ymestyn a chofnodir y negeseuon oddi wrth blant a phobl ifanc a gall yr holl staff gael gafael arnynt. Rydym hefyd wedi cynnal adolygiadau ar faterion penodol (e.e. toiledau mewn ysgolion) ac mae'r holl dimau'n cydweithio i sicrhau ein bod yn wirioneddol glywed yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthym a bod ein holl waith yn cael ei lywio mewn rhyw ffordd gan yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu o'n trafodaethau gyda phlant a phobl ifanc.

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r Comisiynydd a'i dîm fynd allan i'r priffyrdd a'r caeau i gyfarfod â phlant a phobl ifanc - nid disgwyl am alwad ffôn neu neges e-bost. Ond mae'n bwysig sefydlu peirianweithiau er mwyn iddynt allu ein cyrraedd, ac mae amrywiaeth o ffyrdd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd er mwyn i blant a phobl ifanc chwarae rhan ac i'w lleisiau gael eu clywed. Mae hyn eisoes yn cynnwys y grŵp ebostio arloesol **Atebnôl/Backchat**, ac yn y dyfodol bydd llinell ffôn arbennig a gwasanaeth negeseuon testun SMS.

Yn ogystal â siarad mewn cynadleddau, yn ystod y flwyddyn mae'r Comisiynydd a'i dîm wedi mynychu digwyddiadau megis eisteddfodau, gwyliau ieuentid a diwrnodau hwyl ac wedi ymweld â fforymau ieuentid, ysgolion, prosiectau a grwpiau - gan wneud yn siwr fod pobl yn gwybod am y Comisiynydd a pham ein bod yma. Rydym hefyd yn hyrwyddo'r cysyniadau a'r syniadau sydd y tu ôl i hawliau plant ac yn annog eraill i barchu hawliau plant a phobl ifanc yn mhopeth a wnânt.

atebnôl

Cyfle i blant a phobl ifanc gael dweud eu dweud

Treialwyd y grŵp e-bost hwn yn ystod y flwyddyn ac mae wedi'i lansio'n ffurfiol erbyn hyn. Mae'n ffordd hawdd a sydyn i blant a phobl ifanc allu dweud wrth dîm y Comisiynydd am yr hyn sydd o bwys gwirioneddol iddynt, ac yn gadael iddynt gyfrannu at y gwaith y mae'r tîm yn ei wneud wedyn gyda darparwyr gwasanaethau, gwleidyddion a gwneuthurwyr polisi.

Dim ond y wybodaeth fwyaf sylfaenol yr ydym yn ei chadw am aelodau **Atebnôl**. Dydyn ni ddim hyd yn oed yn cadw'u cyfeiriadau na'u cyfenwau, a dim ond y cydlynnydd sy'n gweld y cyfeiriadau e-bost. Rydym yn e-bostio pawb yn rheolaidd i ofyn am eu barn am bethau sy'n digwydd yn y Cynulliad, mewn rhaglenni sebon a chydag enwogion, storïau pwysig yn y newyddion ac am awgrymiadau cyffredinol. Mae hefyd yn ffordd y gellir ei defnyddio i ddelio gyda chwynion neu bryderon mwy penodol.

Dechreuodd y grŵp heb enw, ond cyflwynodd yr aelodau cyntaf restr o awgrymiadau, a **backchat** ddaeth i'r brig ar ôl cael etholiad ar-lein. Matthew o Abertawe a Jâms o Gaerdydd feddylodd am y cyfuniad **backchat/atebnôl** dwyieithog.

Rydym am i blant a phobl ifanc gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn yr ydym yn ei wneud hyd yn oed os nad ydynt bob amser yn teimlo fel cyfrannu. Trwy atebnôl, gallant hefyd gyfrannu at yr hyn sy'n cael ei ystyried gan rai fel ein gwaith mwy difrifol, ac awgrymu testunau newydd. Nid ydym yn disgwyl ateb bob amser, ond gyda'r materion llosg cawn ymateb cryf. Pan roesom gyflwyniad ar fwlio mewn ysgolion i un o bwyllgorau'r Cynulliad ychydig fisoedd yn ôl, cyfrannodd aelodau **atebnôl** safbwyntiau a phrofiadau personol a ddarluniai nid yn unig y pwyntiau a wnaed gennym, ond a ddylanwadodd hefyd ar yr hyn a ddewisom ganolbwyntio arno.

I ymuno – neu i gael mwy o wybodaeth – ebostiwrch ni - backchat@complantcymru.org.uk

Adolygu

Trwy gynnal adolygiad, cawn gyfle i edrych yn fanylach ar sut mae polisïau ac ymarfer yn hyrwyddo a diogelu hawliau a lles plant. Cynhaliwyd yr adolygiad cyntaf yn ail hanner 2002, a dychwelodd at y prif ysgogiad dros sefydlu Comisiynydd Plant i Gymru – argymhellion Adroddiad Waterhouse, **Ar Goll Mewn Gofal**.

Edrychodd yr ymarfer ar draws Cymru gyfan ar y trefniadau ar gyfer eiriolaeth plant a'r gweithdrefnau gogyfer â delio gyda chwynion a datgelu camarfer yn adrannau gwasanaethau cymdeithasol y 22 awdurdod lleol. Cyhoeddwyd adroddiad a oedd yn cynnwys canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad - Datgan Pryderon – ddiwedd Chwefror 2003.

Datgan Pryderon yw'r arolwg mwyaf cynhwysfawr hyd yma o'r ddarpariaeth eiriolaeth i blant a phobl ifanc gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru. Lle canfuwyd arfer da, bydd yn cael ei hyrwyddo trwy Ganllawiau Ymarfer sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd. Mae **Datgan Pryderon** yn rhoi golwg gyffredinol o'r systemau a'r gweithdrefnau sydd ar gael ac, o ran cwynion, datgan camarfer ac eiriolaeth, mae'n amlwg nad yw plant yn cael y fargen orau bosibl. Ymysg y canfyddiadau oedd fod awdurdodau lleol wedi methu gwerthfawrogi pwysigrwydd polisïau datgelu camarfer ar gyfer diogelu plant, ac ar gyfer unrhyw wasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt – boed y rheini'n cael eu cyflwyno'n fewnol neu wedi'u comisiynu. Roedd hi'n amlwg hefyd nad oedd unrhyw ymdrechion penodol yn cael eu gwneud i sicrhau bod plant o'r grwpiau sydd ar gyrion eithaf cymdeithas yn cael gafael ar y gwasanaethau hyn. Cyfaddefodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol nad oeddynt yn gallu diwallu anghenion cefnogaeth plant sy'n derbyn gofal ac sy'n byw ymhell o gartref, a'r rhain yn aml yw'r rhai mwyaf diymgeledd.

Roedd cyfraniad y grwpiau o blant a phobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r adolygiad yn hanfodol ac rydym yn ddiolchgar iddynt am roi o'u hamser rhydd i gyfrannu. Roedd y rhai a oedd yn gysylltiedig â'r adolygiad yn sicr yn cydnabod pwysigrwydd dweud, a'r angen i ddweud, ond heb fwy o systemau sy'n canolbwyntio ar y plentyn a gwybodaeth am eu bodolaeth, nid ydynt yn debygol o wneud hynny. Dangosai'r arolwg mai nifer fechan o gwynion a gychwynnwyd gan blant a phobl ifanc. Rhaid i ni fod yn hyderus fod proses mor hanfodol ar gyfer diogelu buddiannau plant yn canolbwyntio ar y plentyn ac ar gael yn hwylus iddo yn hytrach nag edrych ar hyn o safbwynt oedolyn. Yr adolygiad hwn yw cam cyntaf proses ehangach i adolygu systemau o'r fath yn yr holl wasanaethau sy'n effeithio ar fywydau plant. Yn y misoedd i ddod, bwriadwn adolygu trefniadau awdurdodau addysg lleol gyda golwg ar gwynion, datgelu camarfer ac eiriolaeth.



Credwn ei bod yn anodd iawn bod yn berson ifanc oherwydd y bwlio, diffyg cludiant, prinder swyddi a phrinder pethau i'w gwneud yn ein cymuned.



Datgan Pryderon

Dyma rai o'r prif argymhellion:

- y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu uned i gydlynu'r gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir yng Nghymru.
- astudiaeth drylwyr a gwirioneddol gyfranogol gyda phlant a phobl ifanc er mwyn cael systemau sy'n fwy plentyn-ganolog.
- y dylai polisïau datgelu camarfer ar gyfer staff gwasanaethau cymdeithasol fod â chysylltiad mwy uniongyrchol â threfniadau amddiffyn plant, ac yn unol ag argymhellion Waterhouse, dylai peidio â rhoi gwybod am gamweithredu fod yn drosedd a fydd yn arwain at ddisgyblu.
- dull gweithredu 'siop un stop' syml ar gyfer ymateb i faterion a phryderon plant.

Ymchwilio

Mae gan y Comisiynydd bŵer cyfreithiol i gynnal math arall o adolygiad neu ymchwiliad - un sy'n edrych ar achos neilltuol yn fanylach. Gall hefyd gynnal Archwiliad - ymchwiliad cyhoeddus ffurfiol i amgylchiadau sy'n gysylltiedig â sefyllfa o bryder neilltuol. Mae'r agwedd hon ar ein gwaith yn tyfu a bydd ailstrwythuro'n digwydd yn 2003-2004 ar gyfer hyn.

Yn ystod 2002-03 parhaodd Archwiliad Clywch. Mae'r ymchwiliad cyhoeddus hwn yn archwilio datganiadau gan gyn ddisgyblion y diweddar John Owen a darparwyr gwasanaeth er mwyn:

- pennu gwersi i'w dysgu o'r ffordd yr ymchwiliwyd i honiadau o gamdriniaeth ac a yw canllawiau a gweithdrefnau cyfredol yn ddigonol
- arfarnu pa mor ddigonol yw'r trefniadau presennol i annog plant i rannu'u pryderon gydag oedolion
- archwilio gweithdrefnau ac arferion diogel ar gyfer gweithio gyda phlant yn y celfyddydau perfformio

Mynychodd hanner cant o dystion a rhoi tystiolaeth yn ystod y 23 diwrnod y bu'r ymchwiliad yn eistedd yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd cyfanswm o 120 o ddatganiadau a chasglwyd 2,937 tudalen o dystiolaeth.

Bydd cyfnodau cyhoeddus Archwiliad Clywch yn cael eu cwblhau ym mis Tachwedd 2003, a chyhoeddir yr adroddiad terfynol yn 2004.

Mae cwyno'n wirioneddol anodd pan ydych yn byw'n rhywle.

Dwi isio cwyno am fwlio mewn ysgolion.

Rhaid i bobl siarad allan a pheidio â bod ag ofn.

Doeddwn i ddim yn hoffi siarad drosof fy hun. Mae eiriolaeth yn syniad da i bobl nad ydynt yn gallu siarad drostynt eu hunain.





Mae eiriolaeth yn bod i amddiffyn plant a phobl ifanc - gan eich helpu chi i ddeall eich hawliau a gwneud i bobl eraill wrando arnoch.

Dwi'n poeni llawer am bethau gwirion! Dyma rai o'r pethau sy'n fy mhoeni ar hyn o bryd: y rhyfel yn erbyn lrac, bechgyn, arian a stwff ysgol fel gwaith cartref neu waith cyffredinol yn y dosbarth.

Cadw'n bysedd ar y pyls

Nid yw'n ddigon gwrandao'n unig ar blant a phobl ifanc. Mewn sawl achos, fe ddaw'r wybodaeth allweddol gan fudiadau neu bobl broffesiynol neu oedolion eraill sy'n gweithio gyda nhw neu ar eu rhan. Mae'n hanfodol fod y sianeli cyfathrebu gyda grwpiau neu gyrff o'r fath yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon. Cedwir rhestr o gyfarfodydd rhwng y Comisiynydd, yr Is-Gomisiynydd ac aelodau'r tîm a mudiadau a sefydliadau o'r fath. Mae gennym gynrychiolaeth fel arsyllwyr ar lawer o weithgoriau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill ac rydym yn aelodau o gynghreiriaid megis Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, 'Sdim Curo ar Blant! Cymru ac ENOC (Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsmyr Plant). Lle bo'n briodol, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda grwpiau cyfeirio allweddol - naill ai'n cynnwys plant a phobl ifanc, eu heiriolwyr a phobl broffesiynol berthnasol, neu gymysgedd o'r ddau.

Cyfleu'r neges

Mae'n rhaid i amddiffynnydd plant godi ei lais a chyflwyno barn a buddiannau plant i'r cyhoedd, y llywodraeth a gwneuthurwyr polisi. Rydym wedi ymateb i ddogfennau polisi, wedi rhoi tystiolaeth i bwyllgorau pwnc a phwyllgorau dethol, ac wedi cyflwyno sylwadau i Gynulliad Cymru a llywodraeth y DU.

Mae cyfleu'r negeseuon hynny'n bwysig iawn, a thrwy roi cyfweiliadau i bapurau newydd cenedlaethol a lleol yn y DU, cylchgronau, cyfnodolion, rhaglenni teledu a radio, rydym yn ceisio cyrraedd cymaint ag y gallwn o bobl. Ceisiwn bob amser adlewyrchu'r hyn y mae plant a phobl ifanc wedi'i ddweud wrthym, yn ogystal â'r hyn a deimlwn sydd er eu budd gorau. Tra bo datganiadau i'r wasg yn cael eu hysgrifennu ar gyfer digwyddiadau allweddol a lansiadau, gan amlaf daw'r gohebwyr atom ni, ac mae proffil uchel y Comisiynydd Plant, ei dîm a hawliau plant yn y cyfryngau yng Nghymru a'r DU, yn Gymraeg ac yn Saesneg, wedi'i gynnal.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar Becyn Gwybodaeth, ac amrywiaeth ehangach o daflenni, poster a deunyddiau eraill. Rydym hefyd yn cyhoeddi canfyddiadau ac argymhellion ein hymchwiliadau a'n hadolygiadau. Gellir cael copïau caled o daflenni ac adroddiadau oddi wrth unrhyw un o'n swyddfeydd.

Prosiect Damien - y pecyn gwybodaeth

Ymunodd Damien Edgell â'r tîm ym mis Ionawr 2003 gyda'r nod o ddatblygu pecyn gwybodaeth ar y cyd â phlant a phobl ifanc. 17 oed ydy Damien ac mae'n Weithiwr Prosiect dan Hyfforddiant gyda Chronfa Achub y Plant ond wedi'i leoli gyda Thîm y Comisiynydd Plant fel rhan o'r Cynllun Grym Dweud. Mae'n brysur yn gofyn i blant a phobl ifanc pa fath o gyhoeddiadau a 'freebies' y byddent yn hoffi'u gweld yn y pecyn – a byddwn yn edrych ar sut y gellir addasu'r pecyn fel ei fod yn cwrdd ag anghenion gwahanol blant a phobl ifanc. Ymhen ychydig bydd yn eu cynnwys yn y gwaith o benderfynu ar eu hoff ddyluniadau ac yn arwain y gwaith ar ddatblygu'r adnodd gwybodaeth pwysig hwn.



Pe na fyddai pobl dan 18 yn yfed o dan oed mewn bariau, beth a ble byddent yn mynd ar nos Wener a nos Sadwrn?!! Yn 17 oed, mae'n hwyl mynd i'r clybiau!!

Dwi'n meddwl fod pwysau gan gyfoedion yn chwarae rhan fawr gyda chamddefnyddio cyffuriau. Gall ffrindiau a defnyddwyr cyffuriau eraill ddylanwadu amoch, ond dewis yr unigolyn hefyd yw dilyn llwybr cyffuriau neu beidio.


Chefais i ddim yn nhrin yn deg gan oeddw'n eisiau mynd i ysgol brif ffrind (gyda chefnogaeth) ond cefais fy ngorfodi i fynd i ysgol arbennig. Wnaethon nhw addo adolygu'r sefyllfa, ond wnaethon nhw ddim.

Adeiladu sefydliad cryf

Ni fyddai gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant y rhyddid i weithio'n rhagweithiol tuag at ei nodau heb sefydliad cryf a sylfaen gadarn i adeiladu gweithgarwch mor eang arni. Mae'r tîm o staff cyllid a gweinyddol yn helpu i sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo'n ddidrafferth ac yn darparu cefnogaeth hanfodol i weddill y staff.

Heb fframwaith clir o bolisiau a systemau, byddai'n anodd gwireddu'r weledigaeth. Ym mis Ionawr 2003, ymunodd Sharon Davies â'r tîm Cyfreithiol a Gweinyddol ar secondiad o'r Cynulliad fel Rheolwr Datblygu Systemau. Trwy weithio'n agos gyda'r tîm Cyfreithiol a Gweinyddol a gweddill yr Uwch Dîm Rheoli, mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda i roi sylfaen drefniadol gref a chadarn sydd ei hangen arno i waith y Comisiynydd Plant.





Mae'n swnio'n llawer iawn o waith. Unrhyw beth arall?


Cefnogi plant a phobl ifanc y ffeithiau a'r ffigurau

Daw aelodau'r Tîm Cyngori o'r timau eraill o fewn y swyddfa a defnyddir system rota ddyletswydd. Darparant gyngor a chefnogaeth i blant a phobl ifanc unigol a'r rhai sy'n galw ar eu rhan.

Mae hwn yn faes gwaith sylweddol. Yn 2002-2003, cysylltodd 197 o bobl â'r Tîm Cyngori am y tro cyntaf – cynnydd o 76% ar y llynedd ac, wrth gwrs, byddwn yn dal i weithio gyda llawer o'r bobl a gysylltodd â ni yn y gorffennol. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym wedi gweithredu mewn perthynas â thros 450 o'r cysylltiadau a dderbyniwyd.


Y tîm cyngori – atgyfeiriadau newydd y chwarter

Rhagfyr 2000 - Mawrth 2003



Mae'r ffyrdd a ddefnyddir gan bobl i gysylltu â ni wedi newid hefyd ers y flwyddyn gyntaf. Daeth y rhan fwyaf o achosion i'n sylw trwy lythyr (52%) yn 2001-2002, ond gwelwyd cynnydd o bron 30% yn gyffredinol mewn cysylltiadau dros y ffôn. Mae cyswllt ebost hefyd wedi cynyddu o 1% i 5%.

Y dulliau a ddefnyddiwyd i gysylltu â'r Comisiynydd



Mae'r dosbarthiad o ran rhyw wedi newid ers y flwyddyn gyntaf hefyd, gyda'r nifer fawr o faterion AAA a godwyd efallai yn cyfrif am y gynrychiolaeth uwch o fechgyn a dynion ifanc ymysg baich gwaith y tîm cyngori am y flwyddyn.


Dwi'n meddwl y bydd cael Comisiynydd Plant yn newid y ffordd y mae pobl yn cael eu trin a bydd yn datrys problemau ac yn datblygu mwy o weithgareddau - stwff fel 'na. Bydd pobl sy'n gwneud y cwynion yn gallu'i drafod gyda'r bobl yr ydych wedi'u cyfarfod ac felly bydd pobl yr ydych wedi'u cyfarfod yn trafod hyn gyda'r plant.

Dwi'n meddwl nad oes llawer o bobl ifanc, fi yn eu mysg, yn gallu gweld eu hunain yn byw yng Ngorllewin Cymru ar ôl iddynt dyfu am nad oes digon o swyddi yn yr ardal. Dim ond unwaith yr wythnos y mae bysys yn mynd i rai pentrefi. I bobl ifanc sy'n mwynhau siopa, mae'n debyg mai Gorllewin Cymru yw'r lle gwaethaf ym Mhrydain!



Rhyw y plant a'r bobl ifanc y gweithredwyd ar eu rhan


1 Ebrill 2002 - 31 Mawrth 2003



Daw'r rhan fwyaf o'r cyswllt cychwynnol oddi wrth riant neu ofalwr, ond mae'r gweithwyr cynghori wastad yn sicrhau eu bod yn siarad â'r plentyn neu berson ifanc cyn gynted â phosibl. Mewn sawl achos, mae'n briodol fod yr oedolion – gofalwyr neu bobl broffesiynol – yn gweithredu fel eiriolwyr ar ran y plentyn neu'r person ifanc a nhw fydd ein prif bwynt cyswllt. Mae hyn yn arbennig o briodol gyda phlant ifanc iawn neu blant ag anghenion cyfathrebu neilltuol. Mewn rhai achosion, byddwn yn helpu'r plentyn gael gafael ar eiriolwr annibynnol. Wrth i'r systemau cyfathrebu yr ydym yn eu datblygu ar gyfer plant a phobl ifanc ddod yn weithredol, bydd cyfran y cysylltiadau cychwynnol oddi wrthynt hwy yn cynyddu. Hysbysir yr oedolion sy'n cysylltu â'r tîm cynghori bob amser mai ar ran y plentyn neu'r person ifanc fyddwn yn gweithredu, a'u dymuniadau a'u buddiannau gorau hwy fydd yn llywio unrhyw weithredu a wneir gennym, yn hytrach na dymuniadau'r oedolion sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa.

Pwy wnaeth y cyswllt cyntaf?

1 Ebrill 2002 - 31 Mawrth 2003



Mae dosbarthiad oed y gwaith cynghori yn dangos rhai tueddiadau sy'n amlgu'u hunain. Hyd yn oed mor gynnar â hyn, mae'n glir ei bod yn fwyaf tebygol y gofynnir am gyngor ar gyfnodau pontio allweddol, e.e. rhwng addysg gynradd ac uwchradd, ac wrth symud o'r ysgol i waith neu hyfforddiant.


Dylid cael DIM YSMYGU o flaen plant – ac rydym angen mwy o bethau i'w wneud fel gemau a thraws gwlad.

Dwi'n gweld bwlio trwy'r amser yn yr ysgol. Mae'n reit ddigalon gweld rhywun yn cael ei fwlio. Dwi'n ceisio cadw o ffordd pobl wrth iddynt ffraeo, ond os oes rhywun yn bod yn gas wrth fy ffrindiau agos, dwi'n mynd yn rhan o'r peth.



Oed y plant a'r bobl ifanc y gweithredwyd ar eu rhan

1 Ebrill 2002 – 31 Mawrth 2003



Nid yw'r Tîm Cyngori'n dyblygu gwaith asiantaethau a sefydliadau sydd eisoes yn bodoli ac, yn aml, mae'r Tîm Cyngori yn cyfeirio'r galwyr at yr asiantaethau hynny sy'n gallu rhoi'r help y maent ei angen iddynt. Mae'n amlwg nad yw'r cyhoedd yn gwybod ble i droi yn aml, ac yn y flwyddyn nesaf dylai datblygu ymwybyddiaeth fod yn flaenoriaeth. Mewn nifer o achosion, rydym yn cynghori'r galwyr i ddefnyddio trefn gwyno'r asiantaethau priodol. Mae hyn wedi peri problem i lawer o bobl ac yn aml roeddynt angen cefnogaeth y Tîm Cyngori er mwyn cyflwyno cwyn ffurfiol.


Achos enghreifftiol: anhawster nodweddiadol

Roedd pobl ifanc a rhieni wedi cwyno am fwlio mewn ysgol. Nid oedd y Pennaeth yn fodlon derbyn y gŵyn gan iddo ddweud "nad oes unrhyw fwlio yn digwydd yn fy ysgol i".

Bu i ni ei annog i wrando ar yr hyn yr oedd gan ei fyfyrwyr a'u rieni i'w ddweud.

Mathau o faterion y deliwyd â hwy gan y Tîm Cyngori


1 Ebrill 2002 – 31 Mawrth 2003



Roedd yr ystod a'r math o faterion y tynnwyd sylw'r Comisiynydd Plant atynt yn debyg yn 2001-02 a 2002-03. Roedd materion addysg yn gyffredinol ac Anghenion Addysgol Arbennig yn uchel ar y rhestr.

Mae adolygiad y Comisiynydd o'r materion (Rhan 3 yr adroddiad hwn) yn ymchwilio'n fanylach i hyn.

Y mathau o faterion y tynnwyd sylw'r Comisiynydd Plant atynt ers ei sefydlu



Yn ogystal â helpu i gyflawni gwell canlyniadau, sicrhau mwy o amddiffyniad neu gyfiawnder i'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw, mae achosion unigol yn darparu arweiniad gwerthfawr i'r angen am newid polisi neu arferion gweithio. Gall dadansoddi'r hyn a aeth o'i le i un person ifanc roi goleuni ar faterion sy'n llywio'n cyfraniad i ymgynghori neu drafodaeth fwy cyffredinol.

Achos enghreifftiol: Polisi

Methodd person ifanc a leolwyd mewn cartref preswyl mewn sir arall â chael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl a bu'n ddifrifol wael.

Gwnaethom yn siwr fod y person ifanc yn cael y cymorth yr oedd ei angen arno a gofyn 'beth aeth o'i le?'. Byddwn yn rhoi pwysau ar wneuthurwyr polisi a darparwyr gwasanaeth i wneud yn siwr eu bod yn ei gael yn iawn yn y dyfodol.

Weithiau, gall pryder unigolyn mewn un rhan o Gymru amlygu'r angen am gael darlun ar draws Cymru gyfan. Yn yr achos hwn, rydym yn ceisio barn plant a phobl ifanc ar draws y wlad.

Achos enghreifftiol: Bysys ysgol

Yn dilyn damwain drasig gyda bws ysgol, cysylltodd llawer o bobl â'r swyddfa gyda phryderon am oed a chyflwr peiranyddol y bysys yn ogystal â diffyg goruchwyliaeth gan oedolyn.

Rydym yn edrych ar yr achos neilltuol hwn, ond rydym hefyd yn archwilio'r polisïau y tu ôl i hyn a sut maent yn cael eu gweithredu, AC yn cynnwys plant yn y gwaith. Rydym yn defnyddio techneg cyfweiliad radio ffug i adael i blant a phobl ifanc ddweud wrthym sut maent yn teimlo am ddiogelwch ar eu bws ysgol – gan gynnwys holi a yw bwllo'n broblem.



Felly beth fyddwch chi'n ei wneud nesaf?

Yn ogystal â pharhau gyda'r gwaith a'r cynlluniau newydd a amlinellir uchod, rydym eisoes yn gweithio tuag at y canlynol yn 2003-04:

- Datblygu'r trefniadau ar gyfer darparu cymorth a chyngor i blant a phobl ifanc, ac ar gyfer cynnal ymchwiliadau o achosion unigol.
- Codi ymwybyddiaeth o fodolaeth y Comisiynydd ac ymweld â mwy o ysgolion, prosiectau, grwpiau ieuenctid, gwyliau a digwyddiadau eraill - a chael mwy o blant a phobl ifanc i ymweld â ni!
- Dechrau sefydlu grwpiau ymgynghorol, fel bo plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn fwy systematig yn yr hyn a wnawn.
- Lansio cam 1 ein gwefan newydd a dechrau ar broses ymgynghori eang ar gyfer ei datblygu.

Yn y flwyddyn ddilynol byddwn yn gwneud y canlynol:

- hyrwyddo'r gwasanaethau a gynigiwn, a'r cyflawniadau a sicrhawyd mewn ffyrdd arloesol
- recriwtio llysgenhadon ysgol a chynyddu'n gwaith ar fonitro Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn
- cynnwys plant a phobl ifanc yn llawn yn y broses gynllunio ar gyfer 2005-06
- monitro gweithrediad argymhellion Archwiliad Clywch, gan barhau i wrando a dysgu, adolygu, ymchwilio, hyrwyddo arferion da a siarad dros blant a phobl ifanc yng Nghymru.



Mae'n bws i'r ysgol yn ofnadwy - wrth droi cornel mae'r drws yn agor, pan fydd hi'n bwrw glaw mae'r glaw yn pistyllio trwy'r to ac mae gwm cnoi ar bob sedd.

Nid yw pob arhosfan bws yn ddiogel, sych a glân. Beth ydych am ei wneud am hynny?

Dydw i ddim yn gwybod llawer am gludiant ysgol gan nad ydw i'n ei ddefnyddio, mae'n well gen i gerdded i gael awyr iach ac ymarfer.

Nid oes gan ein hysgol athro arbennig i helpu plant gydag awtistiaeth. Mae angen arian arnom gan y Llywodraeth!

Rhan 3

Adolygiad y Comisiynydd Plant o'r materion sy'n berthnasol i hawliau a lles plant yng Nghymru

Yn adroddiad llynedd tynnais sylw at nifer o faterion allweddol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Daeth y rhain i'm sylw mewn nifer o achosion o ganlyniad i sgysiau uniongyrchol gyda phobl ifanc eu hunain. Rwyf am roi sylw i rai materion newydd yr wyf wedi dod yn ymwybodol ohonynt yn yr un modd yn ystod llynedd.

Fodd bynnag, nid yw'r materion a godais llynedd wedi cael eu datrys i gyd. Yn gyntaf felly mi adolygaf y cynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r materion pwysicaf yn fy marn i.

Y diweddaraf ynghylch materion blaenoriaeth 2001-02

Tlodi Plant

Calondid i mi oedd ymateb cyflym a chadarnhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r mater pwysig o dlodi plant a amlygwyd yn adroddiad llynedd. Bydd yr addewid i greu strategaeth gan y Cynulliad i fynd i'r afael â thlodi plant yn cydategu ymdrechion llywodraeth y DU i haneru tlodi plant o fewn cenhedlaeth.

Mae hyn i'w ganmol, ond maent yn methu eu targedau'u hunain o gryn dipyn. Y plant sy'n dioddef canlyniadau'r methiant hwn. Mae'r Canghellor wedi cyhoeddi y cynhelir adolygiad ar gyfer 2004 ond ni fydd yr amserlen hon yn rhoi'r polisi yn ôl ar y trywydd mewn pryd i niferoedd mawr o bobl ifanc. Mae problemau gweinyddu Credydau Treth Plant gan Gyllid y Wlad yn cymhlethu'r diffyg hwn.

Byddaf yn parhau i fonitro effaith polisiâu'r Cynulliad a pholisiâu Llywodraethol ar dlodi plant yng Nghymru yn fy adroddiadau yn y dyfodol. Mae plant yn parhau i ddisgrifio effeithiau tlodi i mi ac i'm staff, ac allai neb fethu â chael ei gyffwrdd gan eu brwydrau. Credaf o hyd mai cael gwared ar dlodi plant fyddai'r un peth mwyaf y gallem ei wneud iddynt.

Mae cysylltiadau rhwng tlodi ac iechyd gwael ymysg plant. Mae diet rhai plant yn wael, sy'n arwain weithiau at ordewdra. Dylai ystyried syniadau gan blant a phobl ifanc ynghylch sut i wella'u diet a chyfleoedd hamdden iach fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae darparu bwyd iach yn yr amgylchedd ysgol yn hanfodol. Croesawaf symudiadau gan sawl ysgol i sicrhau bod dŵr yfed wastad ar gael i ddisgyblion.

Mae lefel tlodi plant yn parhau'n warth cenedlaethol, yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig.

Addysg

Mae nifer fawr o bobl yn dal i gysylltu â'm swyddfa ynghylch materion addysg. Mae plant yn lleisio pryderon ynghylch cyflwr adeiladau (ac ie, a thoiledau!) a'r hyn sy'n driniaeth annheg yn eu barn hwy. Mae llawer o bobl ifanc yn dal i ddweud wrthyf ynghylch y maint a'r math o straen gormodol a roddir arnynt, ac ar eu hathrawon, gan ein system brofi bresennol. Mae hyn yn cael ei adolygu yng Nghymru, a byddaf yn monitro'r datblygiadau.

Mae nifer o ysgolion yng Nghymru'n mabwysiadu ymagwedd lawer mwy crwn at addysg, er budd athrawon a disgyblion fel ei gilydd. Mae rhai yn ailgyfeirio gweithgarwch ysgol o ganlyniad i drafodaethau strwythuredig gyda disgyblion a rhieni. Rwyf yn gefnogol iawn i gynlluniau o'r fath. Problemau gyda gwasanaethau i blant ag anghenion addysgol arbennig sy'n parhau i'w gweld fwyaf yn fy mag post. Gobeithio y bydd y peirianweithiau cynllunio ar y cyd a chyflwyno gwasanaeth sy'n cael eu rhoi ar waith yn dechrau cael effaith ar hyn.

Mae gan y Fframweithiau Plant a Phobl Ifanc y potensial i sicrhau proses o weithio ar y cyd a chyfranogiad pobl ifanc ac edrychaf ymlaen at ddarllen am enghreifftiau o hyn yn ymarferol. Byddaf hefyd wrth gwrs yn gwyllo'n ofalus wrth i ni symud tuag at y dyddiad a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer sefydlu cynghorau ysgolion ymhob ysgol yng Nghymru (diwedd 2004).

Mae cludiant ysgol, a'i ddiogelwch, yn fater arall sy'n gysylltiedig ag addysg yr wyf wedi dechrau'i drafod gyda phobl ifanc ac oedolion sy'n bryderus am y mater. Mae'n amlwg eisoes fod amrywiad mawr yn ansawdd cerbydau a threfniadau yng Nghymru, a bu i ddamwain angheuol yn Ne Cymru ddod â'r mater fwyfwy i'r amlwg. Rwyf wedi cysylltu â'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch y mater hwn ac rwyf wedi derbyn sicrwydd y bydd cludiant ar gyfer pobl ifanc yn fater blaenoriaeth i'w adolygu.

Materion blaenoriaeth 2002-03

Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Croesawyd cyhoeddiad Busnes Pawb – y strategaeth Cymru gyfan ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc – gan lawer o ymarferwyr a sylwebyddion. Sefydlai gyfeiriad strategol clir wedi'i gynllunio i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol priodol a digonol ar gael i bobl ifanc yng Nghymru. Rhoddai sylw amlwg i ddull plentyn-ganolog, rhywbeth a oedd i'w groesawu, er nad oedd elfennau eraill o'r strategaeth yn arddangos ymrwymiad mor benodol i gyfranogiad ag y dylent. Serch hynny, roedd y strategaeth yn ymgais feiddgar a dychmygus i roi gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc ar y trywydd iawn.

O'r herwydd, mae'n fwy o syndod nad oes unrhyw gyllid wedi'i bennu na'i bridianu i roi'r strategaeth ar waith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC), y corff a gomisiynodd yr adroddiad yn y lle cyntaf a rhaid gweithredu er mwyn rhoi sylw i hyn.

Mae'r canlyniadau'n gwbl amlwg. Mae pobl broffesiynol a'u cymdeithasau wedi cysylltu â mi'n uniongyrchol, ynghyd ag unigolion sy'n gweithredu ar ran pobl ifanc. Mae neges pawb yr un fath: Siaradant am wasanaeth mewn argyfwng, gyda darpariaeth wael a bylchog, a cholli gweithwyr proffesiynol a sgilgar, rhywbeth sy'n peri pryder. Mae'r rhai sy'n weddill yn siarad am forâl isel. Dyma rai o'r diffygion penodol gyda'r gwasanaeth:

- nifer llai o welyau y pen ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU
- dim gwelyau i blant yng Nghymru
- dim gwasanaeth fforensig i bobl ifanc yng Nghymru
- dim gwelyau ar gyfer anhwylderau bwyta yng Nghymru
- braidd dim gwasanaeth i blant ag anabledd dysgu
- dim gwelyau argyfwng ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru

Pam nad ydy gwybodaeth ar gael yn hawdd i bobl ifanc – yn enwedig ar rai materion iechyd megis atal cenhedlu?

Dwi'n meddwl y dylai pobl ieuengach gael pleidleisio, yn 15 neu 16 oed.

Plant ddylai ddweud beth sy'n cael ei adeiladu ar eu cyfer, ac nid y cyngor oedolion.

Yr hyn sydd ei angen arnom ydy mwy o gyfleusterau i bobl ifanc a mwy o gyfleusterau yn y cymoedd.





Dylai pobl ifanc gael llawer mwy o ryddid i ddewis pynciau a ddysgir yn yr ysgol, hefyd yr opsiwn i addysg gartref a dysgu y tu allan i'r ysgol.

Penderfyniad yr unigolyn yw sut y dylai fyw ei fywyd a beth y mae am ei wneud ac, ar ddiwedd y dydd, mae'n anodd iawn cyffwrdd pob unigolyn mewn ffordd gadarnhaol heb ennyn adwaith negyddol.

Dydw i ddim yn poeni ynghylch a alla i bleidleisio neu beidio gan nad ydw i'n poeni am bethau fel na oherwydd dwi'n meddwl eu bod yn wastraff amser i bawb!

Golyga'r pwynt olaf fod yn rhaid i rai pobl ifanc gael eu derbyn i wardiau seiciatrig i oedolion neu fod plant yn cael eu lleoli gannoedd o filltiroedd oddi cartref ac oddi wrth eu teuluoedd a'u gwlad, ac mae hynny'n gwbl annerbyniol. Rydym hefyd wedi cael gwybod am ymgynghorwyr â rhestrau aros ymhell dros 12 mis, ac am nifer fawr o swyddi gwag o fewn y gwasanaethau seiciatrig a seicolegol.

Gall diffyg cymorth priodol ac amserol i bobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl ddifetha'u bywydau am byth. Mae LICC yn awr yn gweithio ar Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol gan gynnwys iechyd meddwl. Mae'r mireinio pellach hyn ar y bwriad braidd yn ddibwrpas heb ddechrau gwireddu'r bwriad hwnnw. Rwy'n ymwybodol fod £80 miliwn wedi'i ddyrannu i CAMHS yn Lloegr, ynghyd â £140 miliwn arall wedi'i addo dros y 3 mlynedd nesaf.

Mae'n bryd i LICC naill ai ariannu'i strategaeth sydd wedi derbyn cymaint o ganmoliaeth yn uniongyrchol neu roi'r gorau i honni ei fod wedi ymrwymo iddi. Heb gael llwybr clir, uniongyrchol wedi'i ariannu ar gyfer CAMHS, mae llawer o'i ddatganiadau eraill o ymrwymiad i les plant yn swnio braidd yn wag.

Cynllunio – pryderon gan blant

Mae nifer o bobl ifanc unigol neu grwpiau cymunedol wedi cysylltu â'm swyddfa yn mynegi pryder ynghylch yr effaith y bydd penderfyniadau cynllunio'n eu cael ar eu hamgylchedd, iechyd ac ansawdd bywyd. Rhai o'r materion neilltuol a godwyd oedd lleoliad mastiau ffonau symudol, safleoedd tirlenwi neu losgyddion ac awyrennau sy'n hedfan yn isel.

Mater arall sy'n peri pryder o'r mwyaf i'r cyhoedd yw mannau cyhoeddus i blant a phobl ifanc. Mae plant a phobl ifanc angen parciau chwarae gydag offer da a gofod agored syml lle gallant fod yn rhydd i chwarae a chymdeithasu. Cysylltodd nifer o blant a'u teuluoedd â ni eleni gyda phroblemau a oedd wedi codi oherwydd prinder mannau penodedig. Cyfyd problemau eraill pan fo llwybrau i fannau chwarae ac oddi yno yn rhoi plant mewn perygl. Mae plant wedi disgrifio i mi pa mor annigol y teimlant wrth feicio ar ffyrdd prysur. Yn aml, mae ganddynt atebion creadigol iawn i'r problemau hyn, ond yn anaml iawn y gofynnir am eu barn ac am eu hawgrymiadau.

Rhaid cael treialog rhwng oedolion cymunedau, y plant eu hunain a'r rhai sy'n gyfrifol am lunio a chynllunio datblygiad ffisegol y gymuned.

Er bod rhai eithriadau nodedig, mae llawer o awdurdodau cynllunio nad ydynt yn ystyried ymwneud uniongyrchol gan blant yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn wir hyd yn oed mewn rhai Awdurdodau Lleol lle mae gan staff eraill, e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, gryn arbenigedd yn y maes. Nid yw cyfranogiad plant a phobl ifanc wedi'i brif ffrydio hyd yma.

Mae'n amlwg mai'r hyn sydd ei angen yw ymgrych genedlaethol i sicrhau ymwneud uniongyrchol gan blant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu strategaethau cynllunio cymunedol ac ymdrech ar yr un pryd gan asiantaethau cynllunio i ystyried anghenion ieuchyd a chymdeithasol plant a phobl ifanc. Mae fy swyddfa yn awr yn paratoi i symud y gwaith yma yn ei flaen ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

'Dim byd i'w 'neud': Chwarae a hamdden

Hyd yn oed pan nad yw plant a phobl ifanc yn gyndyn o fynd allan oherwydd pryderon am eu diogelwch, mae llawer yn cwyno nad oes dim i'w wneud – a heb unfan i fynd.

Yn ogystal, mae llawer o gyfleusterau megis canolfannau hamdden yn rhy ddud i bobl ifanc eu defnyddio'n rheolaidd. Hyd yn oed os gall llawer ohonynt gael gafael ar y pris mynediad, gall cyrraedd yno roi cyfanswm y gost y tu hwnt i'w cyrraedd. Mae llawer o bobl ifanc wedi cyfeirio at gefnogaeth y Cynulliad i bobl hyn a chludiant, a byddent yn dymuno rhywbeth tebyg ar eu cyfer hwy.

Does dim darpariaeth megis clybiau ieuenctid ar gael yn agos bob amser i bobl ifanc, a dydy llawer ohonynt ddim am ddefnyddio'r rhai sy'n bodoli eisoes. Mae'n rhaid i ni wrando ar y bobl ifanc hyn. Fel cymuned o oedolion, cwynwn yn aml am bobl ifanc yn 'hongian o gwmpas' neu 'ddim yn mynd allan a gwneud pethau'. Ac eto, ni yn aml sydd gyntaf i wrthwynebu pan gynigir darparu adnoddau ar eu cyfer. Bu i awydd Penaethiaid Gweithredol Heddlu De Cymru ar i Awdurdodau Lleol ddarparu cysgodfannau er mwyn i bobl ifanc allu cyfarfod a 'hongian allan' gyda'i gilydd wneud argraff arnaf. Mae'r ffug gysgodfannau bws hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn. Roeddwn wedi fy synnu ac yn siomedig o glywed bod y rhan fwyaf o gynigion yn cael eu gwrthod oherwydd gwrthwynebiad preswylwyr lleol.

Pam fod yn rhaid i ni dalu'n llawn i fynd i'r sinema ac ar fsysys ac ati pan ein bod yn rhy ifanc i adael yr ysgol ac ennill arian?

Mae'n siwr mod i'n poeni am bethau fel TGAU a gwaith ysgol, ond sgen i fawr ddim i boeni amdano yn 'y mywyd. Wedi'r cyfan, mae bywyd fath â ffigar-êt, waeth gadael iddo fynd â ni i le bynnag dan ni isio mynd.




Dydw i ddim yn mynd allan i ddweud y gwir achos dan ni'n cael y bai am bopeth sy'n digwydd o gwmpas fa'ma.



Bob tro y byddwn yn chwarae y tu allan, mae'r dyn sy'n byw dros y ffordd yn dod allan ac yn dweud wrthon ni am ddychwelyd i'n cartrefi ac mae'n bygwth galw'r heddlu.

Ble mae'r plismyn i roi stop ar hyn i gyd? Ble mae'r cops i helpu?



Gwelwyd yr un senarios lle mae cyfleusterau sglefrfyddio'n cael eu cynllunio. Nid yw'n syndod o bosib fod cymaint o bobl ifanc yn teimlo'n ddryslyd ac yn elyniaethus gan agweddau oedolion sydd ar yr un llaw yn dweud wrthynt am symud oddi ar gorneli'r strydoedd ac i wneud rhywbeth defnyddiol ac, ar yr un pryd, yn rhoi stop ar gyfleusterau ar eu cyfer.

Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol

Mae'r iaith a ddefnyddir i gynnal ein trafodaeth gyhoeddus ar ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn parhau i beri problem. Mae uwch-wleidyddion, a'r cyfryngau, yn aml yn siarad fel petai plant a phobl ifanc yn unig, neu'n bennaf, gyfrifol am ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Yn yr un modd, nodir yn aml mai hwy yw'r prif rai sy'n troseddu, pan mai hwy mewn gwirionedd yw'r prif ddioddefwyr.

Mae pobl ifanc yn clywed hyn, ac mae rhai wedi dweud wrthyf eu bod yn teimlo bod y llywodraeth yn elyniaethus i egni ac afiaith yr ifanc; a'i bod yn cuddio hyn y tu ôl i'r term mwy derbynol 'ymddygiad gwrth-gymdeithasol' i ddisgrifio hyn.

Mae deddfwriaeth arfaethedig yn rhoi grym i'r heddlu ddynodi ardaloedd lle gallant wasgaru grwpiau o bobl ifanc y teimlir eu bod yn fygythiol. Gellir eu hystyried yn fygythiol hyd yn oed lle nad oes unrhyw fwriad o fod yn fygythiol. Bydd rhaid i'r heddlu wneud dewisiadau anodd iawn, a gallai arwain at fathau o gyrffiw yn cael eu gosod ar bobl ifanc a fyddai'n amlwg yn torri Erthygl 31 Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn a'r Ddeddf Hawliau Dynol Ewropeaidd.

Gall y pŵer i fynd â phobl ifanc sydd ar eu pen eu hunain adref yn hwyr yn y nos beri problemau hefyd. Dan y ddeddfwriaeth arfaethedig, gall aelod o'r heddlu, os bydd yn dod o hyd i rywun y mae'n weddol siwr sydd o dan 16 oed nad yw o dan reolaeth effeithiol rhiant, ei ddanfon i'w gartref. Efallai fod rhesymau da gan y bobl ifanc dros aros oddi cartref. Rhaid i ni sicrhau nad ydym yn eu dychwelyd at bobl sy'n eu cam-drin.

Hoffwn weld y llywodraeth hefyd yn gweithredu'n gadarn ynghylch achosion ymddygiad gwrth-gymdeithasol ac yn neilltuol, yn dangos yr un ymrwymiad gwirioneddol a pholemig i ddarparu adnoddau ar gyfer pobl ifanc a fydd yn eu galluogi i ddilyn gweithgareddau o'u dewis fel ag y maent yn ei wneud i'w beirniadu.

Rhan 4

Cyfrifon Adnoddau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2002 – 31 Mawrth 2003

RHAGAIR I'R CYFRIFON

Swyddogaeth a gweithrediad

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Pennir pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau'r Comisiynydd yn y Ddeddf hon a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru a ddaeth i rym ym mis Awst 2001. Dechreuodd y Comisiynydd cyntaf, Mr Peter Clarke, ar ei ddyletswyddau ar Fawrth 1af 2001.

Mae'r ddeddfwriaeth yn 'ganiataol' yn yr ystyr mai dim ond ychydig o ddyletswyddau penodol y mae'n eu rhoi i'r Comisiynydd, ond mae'n ei alluogi i weithredu ac ymyrryd dros gwmpas eang dan y pŵer cyffredinol i weithredu fel 'amddiffynnydd plant a phobl ifanc yng Nghymru.' Golyga hyn fod gweithgareddau'r Comisiynydd yn debygol o amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei ystyried fel y materion pwysicaf ar gyfer lles plant a phobl ifanc. Mae'r Comisiynydd dan ddyletswydd i gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o gynllunio a chyflawni ei waith, a chael eu barn.

Pwerau'r Comisiynydd yn bennaf yw cael gafael ar wybodaeth gan bobl neu asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant. Cyfyngir y pwerau i feysydd a ddatganolwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r rhain yn cynnwys cyflawni swyddogaethau:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraeth Leol (e.e. Addysg, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Hamdden ayb. gan gynnwys arolygu)
Gwasanaethau Iechyd
Nifer o Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

Gall y Comisiynydd gyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar blant Cymru.

Mae'r Comisiynydd Plant yn 'gorfforaeth unigol' dan y gyfraith ac ef yw'r swyddog cyfrifo. Mae'n ofynnol iddo gynhyrchu Adroddiad Blyneddol i Brif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n crynhoi'r hyn a wnaed wrth iddo gyflawni'i swyddogaethau, adolygiad o faterion sy'n berthnasol i hawliau a lles plant Cymru a chrynodeb o'i raglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Rhaid i'r Comisiynydd hefyd gynhyrchu fersiwn o'r adroddiad blyneddol sy'n addas ar gyfer plant, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Anfonir copïau o'i adroddiad i lyfrgelloedd Tŷr Cyffredin a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

NODAU AC AMCANION COMISIYNYDD PLANT CYMRU

Nodau

Diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant ac, wrth gyflawni'i holl swyddogaethau, ystyried confensiwn y CU ar hawliau'r plentyn.

Amcanion

1. Hyrwyddo hawliau a lles plant.
2. Sicrhau bod plant a phobl ifanc Cymru yn ymwybodol o fodolaeth y Comisiynydd, ei rôl a'i swyddogaeth; lleoliad ei swyddfeydd, sut gallant gyfathrebu â'r Comisiynydd a'i staff neu gael mynediad atynt a hawliau plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai a bennir yng nghonfensiwn y CU ar hawliau'r plentyn; hybu'r cyfathrebu/mynediad hwnnw; a sicrhau bod cyrrff cyhoeddus yng Nghymru'n ymwybodol o hawliau plant a phobl ifanc.
3. Sicrhau y ceisir barn plant a phobl ifanc ynghylch sut y dylai'r Comisiynydd gyflawni'i swyddogaeth ac ynghylch cynnwys rhaglen waith flynyddol y Comisiynydd.
4. Adolygu a monitro'r trefniadau ar gyfer cwyno, eiriolaeth a chynghori a datgan camarfer er mwyn canfod a ydynt yn effeithiol o ran diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant, ac i ba raddau y maent yn effeithiol.
5. Adolygu a monitro effaith gweithredu unrhyw un o swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a/neu gyrrff a restrir yn Atodlen 2a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.
6. Archwilio achosion plant neilltuol sy'n derbyn gwasanaethau rheoledig, neu sydd wedi'u derbyn, gan gyrrff a restrir yn Atodlen 2a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 ar blant Cymru.
7. Darparu neu drefnu cyngor, cynrychiolaeth neu gymorth arall i blentyn wrth wneud cwyn ffurfiol neu gyflwyno sylwadau i ddarparwr gwasanaeth.
8. Darparu neu drefnu cynrychiolaeth a chyngor neu gymorth arall i blentyn mewn unrhyw achos sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, os yw'r achos, ym mam resymol y Comisiynydd, yn gysylltiedig â materion sy'n fwy perthnasol a chymwys yn gyffredinol i hawliau a lles plant Cymru.

9. Rhoi cyngor a gwybodaeth i unrhyw berson.
10. Rheoli swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn effeithiol, effeithlon a darbodus a sicrhau bod y cyllid yn cael ei wario'n briodol ac yn gywir.
11. Adolygu pwerau'r Comisiynydd yn barhaus a'r effaith ar blant.
12. Ystyried a chyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant Cymru.

Cyllido

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond mae'n cael ei gyllido ganddo.

Ffurf y cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Pharagraff 7(2) Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd hwnnw gan y Comisiynydd Plant, Llys Siarter, Phoenix Way, Abertawe SA7 9FS.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod 1af Ebrill 2002 i 31ain Mawrth 2003 ac maent yn adlewyrchu asedau, ymrwymadau ac alldro ariannol y Comisiynydd Plant yn unig.

Canlyniadau am y flwyddyn

Mae'r Datganiad Cost Gweithredu yn dangos cost weithredu net, am y cyfnod, o £1,122,000. Mae balans y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn £186,000 mewn credyd.

Adolygiad o Weithgareddau a Datblygiadau yn y Dyfodol

Fel y nodwyd, cyflwynir adroddiad yn adolygu gweithgareddau a datblygiadau yn y dyfodol yn Adroddiad Blynnyddol Comisiynydd Plant Cymru sydd i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref 2003. Dyma fydd ail adroddiad blynnyddol y Comisiynydd.

Uwch swyddogion

Aelodau'r Tîm Rheoli yn ystod y cyfnod oedd:

Peter Clarke	Comisiynydd Plant Cymru a'r Swyddog Cyfrifo
Maria Battle	Is-Gomisiynydd, Cyfreithiol a Gweinyddol a Dirprwy Gomisiynydd
Rhian Davies	Is-Gomisiynydd, Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau
Sara Reid	Is-Gomisiynydd, Cyfathrebu

Penodiadau uwch swyddogion

Penodwyd y Comisiynydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a dechreuodd yn ei swydd ar Fawrth 1af 2001. Roedd y penodiad am ddim mwy na 7 mlynedd.

Penodwyd gweddill yr uwch swyddogion rhwng Ionawr 2002 a Mawrth 2002 ac fe'u penodwyd gan y Comisiynydd dan Atodlen 2 paragraff 4 Deddf Safonau Gofal 2000.

Cyflogau aelodau'r Bwrdd Rheoli: Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n pennu cyflog Comisiynydd Plant Cymru yn unol ag Atodlen 2 paragraff 3 Deddf Safonau Gofal 2000.

Pennwyd cyflogau aelodau eraill y Tîm Rheoli gan Gomisiynydd Plant Cymru yn seiliedig ar arweiniad gan arbenigwyr recriwtio i'r gwasanaeth sifil. Ceir rhagor o fanylion ynghylch cyflogau yn Nodyn 2 y cyfrifon hyn.

Cynllun Pensiwn

Gall gweithwyr presennol ddewis ymuno â chynllun a weinyddir gan yr Ymddiriedolaeth Bensiynau, sef cynllun cyfranogol nas cyllidir (gweler nodyn 1.8 y cyfrifon hyn).

Cyfle cyfartal

Ystyriwyd pob cais am waith gyda Chomisiynydd Plant Cymru ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal i gael swydd a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithiwr dderbyn triniaeth lai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, tueddfryd rhywiol, oed, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig neu batrymau gwaith e.e. rhan amser, ac ni ddylai unrhyw unigolyn gael ei roi dan anfantais oherwydd amodau neu ofnyion na ellir dangos eu bod yn gyfiawn.

Polisi talu

Dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, mae'n rhaid i Gomisiynydd Plant Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Cyflawnwyd hyn gyda 91% o'r holl daliadau o'r fath a wnaed yn ystod y cyfnod.

Archwilwyr

Mae cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru yn cael eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 9 Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000. Yn unol ag ymarfer gorau cyfredol, mae'r Comisiynydd Plant wedi sefydlu pwyllgor archwilio a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2003.

Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar y ddealltwriaeth o'r datganiadau ariannol hyn.

Peter Clarke

Comisiynydd Plant Cymru a'r Swyddog Cyfrifo
23 Gorffennaf 2003

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFO

Dan Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000, mae'n rhaid i Gomisiynydd Plant Cymru gadw cofnodion cyfrifo priodol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, i gydymffurfio â chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a fydd yn rhoi manylion yr adnoddau a brynwyd, a ddaliwyd neu a werthwyd yn ystod y cyfnod ac am y defnydd o adnoddau gan Gomisiynydd Cymru yn ystod y cyfnod.

Paratoyr y cyfrifon adnoddau ar sail croniadau a rhaid iddynt roi barn deg a chywir o sefyllfa Comisiynydd Plant Cymru, yr alldro net o ran adnoddau, yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian ar gyfer y cyfnod.

Mae Atodlen 2, paragraff 10 Deddf Safonau Gofal 2000 yn datgan mai'r Comisiynydd fydd y Swyddog Cyfrifo ac, yn unol ag atodlen 2 paragraff 9, rhaid iddo gyflwyno Cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n rhaid i'r Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a baratowyd

gan y Trysorlys, ac yn benodol:

- cydymffurfio â'r gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifo priodol yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo perthnasol, fel a nodir yn y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, a thros ddiogelu asedau Comisiynydd Plant Cymru, yn cael eu disgrifio ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo, a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni fy nodau a'm hamcanion fel a bennir mewn deddfwriaeth, a'm polisiau, tra'n diogelu'r cyllid a'r asedau cyhoeddus yr wyf i yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi dan drefn Gyfrifo'r Llywodraeth.

Fel sefydliad bach, mae'r holl benderfyniadau ariannol a gweithredol allweddol o ddydd i ddydd yn cael eu gwneud naill ai gennyf i, yr uwch dîm rheoli, neu gan aelodau unigol yr uwch dîm rheoli, gyda'm cytundeb i.

Pwrpas y system reolaeth fewnol

Lluniwyd y drefn reolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach nag er mwyn dileu'r risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei ddarparu yn hytrach na sicrwydd absoliwt y bydd yn effeithiol.

Seilir y drefn reolaeth fewnol ar broses barhaus a luniwyd i ganfod y prif risgiau i gyflawni fy mholisiau, nodau a'm hamcanion, pwyso a mesur y tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n digwydd, a'r effaith petaent yn digwydd, a'u rheoli'n effeithlon ac mewn ffordd ddarbodus. Disgwyliaf y bydd y gweithdrefnau ar waith cyn mis Mawrth 2004 sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu arweiniad y Trysorlys. Mae hyn yn ystyried yr amser sydd ei angen i sefydlu'n llawn y prosesau y mae'r uwch dîm rheoli wedi cytuno y dylid

eu sefydlu, ac i'w cryfhau ymhellach.

Datblygu'r broses o reolaeth fewnol a phrosesau adolygu

Dyma'r fwyddyn gyflawn gyntaf i'r uwch dîm rheoli ac yn ystod y fwyddyn rwyf wedi sefydlu:

- Rhaglen o gyfarfodydd rheolaidd gyda'm huwch dîm rheoli;
- Proses ffurfiol ar gyfer datblygu systemau mewnol ledled y sefydliad;
- Pwyllgor Archwilio gyda dau aelod sy'n annibynnol ar fy swyddfa;
- system o adrodd gan gadeirydd y pwyllgor archwilio, i mi, a'r uwch dîm rheoli, ynghylch rheolaeth fewnol; ac

- adroddiadau rheolaidd gan yr Archwilwyr Mewnol, i safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n cynnwys barn annibynnol Pennaeth yr Archwilwyr Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Rwyf hefyd wedi cychwyn gweithio ar y canlynol:

- fframwaith a pholisi rheoli risg ffurfiol;
- datblygu cofrestr risg trwy'r sefydliad cyfan; a
- sefydlu proses cynllunio corfforaethol ac ymgorffori rheoli risg yn y broses honno.

Amgaeaf amserlen eang o'r gweithredu a gynllunnir ar gyfer 2003-04.

	Dyddiad
• Cyflwyno'r fframwaith a'r polisi rheoli risg a gymeradwywyd i'r Pwyllgor Archwilio	Mehefin 2003
• Cyflwyno'r gofrestr risg ar gyfer y sefydliad cyfan a rhoi gwybod i'r holl staff am y fframwaith a darparu hyfforddiant ar reoli risg i bob aelod o staff	Gorffennaf 2003
• Ymgorffori rheoli risg i'r broses cynllunio corfforaethol ar gyfer 2004-05	Gorffennaf - Medi 2003
• Cwblhau'r gwaith o ddatblygu systemau mewnol	Rhagfyr 2003
• Adolygu'r meini prawf arfarnu ac ailedrych ar y gofrestr risg ar gyfer y sefydliad cyfan gan y tîm cyfan	Ionawr – Chwefror 2004
• Sefydlu cofrestr risg ar gyfer 2004 – 05 a sicrwydd blynyddol gan yr uwch dîm rheoli	Mawrth 2004

Adolygu effeithiolrwydd

Fel swyddog cyfrifo rwyf hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol. Goleuir fy adolygiad o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r uwch dîm rheoli sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith reolaeth fewnol, a chan sylwadau a gafwyd gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill. Fe'm cyngorwyd ynghylch goblygiadau canlyniadau fy adolygiad o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol gan yr uwch dîm rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a bwriadaf sicrhau bod y systemau sydd ar waith yn cael eu gwella'n barhaus.

Gan fod y broses reolaeth fewnol yn y cam datblygu, mae'r prosesau a ddefnyddiwyd gennyf wrth gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol fel a ganlyn:

- bu i'r uwch dîm rheoli ar y cyd drafod ac adolygu gweithrediad y rheoliadau ariannol mewnol; ac
- mae Gwasanaethau Archwilio Mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu'r Archwiliad Mewnol ar gyfer fy swyddfa. Gweithredant i safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Maent yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn annibynnol y Prif Archwilydd Mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw systemau reolaeth fewnol y Comisiynydd, ynghyd ag argymhellion ynghylch eu gwella.

Peter Clarke
Comisiynydd Plant Cymru a'r Swyddog Cyfrifo
23 Gorffennaf 2003

Tystysgrif ac Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol dros Gymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwy'n tystio i mi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 25 i 34 dan baragraff 9 (2) atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn ôl y confensiwn cost hanesyddol fel y'u haddaswyd trwy ailbrisiu rhai asedau sefydlog, a'r polisiau cyfrifo a nodir ar dudalen 30.

Cyfrifoldebau Comisiynydd Plant Cymru a'r Archwilydd

Fel a ddisgrifir ar dudalen 22, Comisiynydd Plant Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir yn unol â hi ac am sicrhau cysondeb trafodion ariannol. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol hefyd am baratoi cynnwys arall yr Adroddiad Blynnyddol. Pennir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, gan statud a dilynaf gyfarwyddiadau'r Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Rwyf yn rhoi fy marn mewn adroddiad ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac wedi'u paratoi yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â hi, ac a yw'r gwariant a'r incwm ymhob ystyriaeth o bwys wedi'u defnyddio i'r dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn adrodd onid yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Comisiynydd wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir neu os nad ydwyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer farchwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynnyddol, ac ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Rwy'n ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau o bwys yn y datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 22 a 23 yn adlewyrchu cydymffurfiaid y Comisiynydd ag arweiniad y Trysorlys – 'Rheolaeth Gorfforaethol: Datganiad ar Reolaeth Fewnol'. Adroddaf os nad yw'n cwrdd â'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson ag unrhyw wybodaeth arall yr wyf ym ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

Sail barn yr archwilydd

Cynhaliwyd farchwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gynhyrchir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon sylweddol a'r penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifo yn addas i amgylchiadau'r Comisiynydd, a ddefnyddir hwy yn gyson ac a ddatgelir hwy yn ddigonol.

Bu i mi gynllunio a chynnal farchwiliad er mwyn i mderbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol i gael tystiolaeth ddigonol er mwyn cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad, pa un a achoswyd hynny trwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall, a bod y gwariant a'r incwm, ymhob ystyriaeth o bwys, wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd hwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi arfarnu pa mor ddigonol yn gyffredinol yw'r dull o gyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Cymru ar 31 Mawrth 2003, ac o'r alldro net o ran adnoddau, adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, a'u bod wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â hi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- ymhob ystyriaeth o bwys, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn

Archwilydd Cyffredinol Cymru,
Audit House, 3-4 Park Place,
Caerdydd CF10 3DP
31 Gorffennaf 2003

Atodlen 1

Crynodeb o'r Alldro o ran Adnoddau

am y cyfnod 1 Ebrill 2002 hyd 31 Mawrth 2003

	2002-2003						2001-2002	
	Amcangyfrif			Alldro				
	Gwariant Gros	Incwm	Cyfanswm net	Gwariant Gros	Incwm	Cyfanswm net	Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r Amcangyfrif	Alldro'r flwyddyn flaenorol
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Costau gweinyddu	1,063	-	1,063	1,122	-	1,122	(59)	706

Cysoni adnoddau gyda'r gofyniad o ran arian

	£000
Cyfanswm alldro net o ran adnoddau (Atodiad 2)	1,122
Caffaeliadau asedau sefydlog (Nodyn 4)	25
Arian a dderbyniwyd o werthu asedau sefydlog	(3)
Addasiadau croniadau:	
Eitemau anariannol (nodyn 3)	(100)
Newidiadau mewn cyfalaf gweithredol	
ac eithrio arian (Nodyn 5)	12
Y gofyniad o ran arian net (Atodlen 4)	1,056

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 34 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

Atodlen 2

Datganiad Costau Gweithredu

am y cyfnod 1 Ebrill 2002 hyd 31 Mawrth 2003

		2002-2003	2001-2002
	Nodyn	£000	£000
Costau gweinyddol			
Costau staff	2	480	154
Costau gweinyddol eraill	3	642	552
Costau gweinyddol gros		1,122	706
Incwm gweithredu		-	-
Costau gweithredu net		1,122	706
Aldro net o ran adnoddau (Atodiad 1)		1,122	706

Deillia'r holl incwm a'r gwariant o weithrediadau parhaus.

Nid oes dim enillion na cholledion ac eithrio'r rhai y cyflwynwyd adroddiad yn eu cylch yn y Datganiad Costau Gweithredu.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 34 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

Atodlen 3

Mantolen

ar 31 Mawrth 2003

Nodyn	2003		2002	
	£000	£000	£000	£000
Asedau sefydlog				
Asedau Diriaethol	4	222		292
Asedau cyfredol				
Dyledwyr	6	17	4	
Arian yn y banc ac mewn llaw	7	23	16	
		<u>40</u>	<u>20</u>	
Credydwyr:				
symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn	8	(76)	(75)	
Ymrwymadau cyfredol net		(36)		(55)
Cyfanswm asedau llai ymrwymadau cyfredol		<u>186</u>	<u>237</u>	
Ariennir gan:				
Ecwiti Trethdalwyr				
Cronfa gyffredinol	9	<u>186</u>	<u>237</u>	

Peter Clarke

Comisiynydd Plant Cymru a'r Swyddog Cyfrifo
23 Gorffennaf 2003

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 34 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

Atodlen 4

Datganiad Llif Arian

am y cyfnod 1 Ebrill 2002 hyd 31 Mawrth 2003

		2002-03	2001-02
	Nodyn	£000	£000
All-llif arian net o weithrediadau		(1,034)	(542)
Gwariant cyfalaf	4	(22)	(378)
Cyllid gan y Cynulliad		1,063	936
Cynnydd mewn arian yn ystod y cyfnod		7	16
Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian			
		£000	£000
Cysoni'r gost gweithredu gyda'r llifau arian gweithredu			
Cost Gweithredu Net		1,122	706
Addasu ar gyfer::			
Trafodion anariannol	3	(100)	(93)
Symudiadau mewn cyfalaf gweithredu ac eithrio arian	5	12	(71)
All-llif arian net o weithrediadau		1,034	542
Dadansoddiad o wariant cyfalaf			
Taliadau i brynu asedau sefydlog diriaethol	4	25	378
Derbyniadau o werthu asedau sefydlog diriaethol	4	(3)	-
All-llif arian net o wariant cyfalaf		22	378
Dadansoddiad o'r cyllido			
Cyllid gan y Cynulliad		1,063	936
(Cynnydd) mewn arian	7	(7)	(16)
Gofyniad o ran arian net		1,056	920

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 34 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

Atodlen 5

Adnoddau fesul Nod ac Amcanion

am y cyfnod 1 Ebrill 2002 hyd 31 Mawrth 2003

NODAU AC AMCANION COMISIYNYDD PLANT CYMRU

Nod: Diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant ac, wrth gyflawni'i holl swyddogaethau, ystyried confensiwn y CU ar hawliau'r plentyn.

		Gros £000	2002-2003 Incwm £000	Net £000
Amcanion				
1	Hyrwyddo.	90	-	90
2	Cysylltiad gyda phlant a phobl ifanc ac ymwybyddiaeth.	179	-	179
3	Safbwyntiau a'r rhaglen waith.	56	-	56
4	Trefniadau monitro ac adolygu.	191	-	191
5	Adolygu a monitro'r gwaith o gyflawni swyddogaethau.	11	-	11
6	Archwilio achosion.	157	-	157
7	Cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc.	90	-	90
8	Cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc mewn unrhyw achosion.	-	-	-
9	Cyngor a gwybodaeth i unrhyw berson.	34	-	34
10	Rheoli'r swyddfa a'r cyllid.	303	-	303
11	Pwerau cyfreithiol.	-	-	-
12	Ystyriaeth a rhoi sylwadau.	11	-	11
Cost gweithredu net		1,122	-	1,122

Mae'r nodiadau ar dudalennau 30 i 34 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

Nodiadau i Atodlen 5

Mae dosrannu'r costau gweithredu i amcanion wedi'i wneud yng nghyd-destun yr amser cymharol a dreuliwyd gan staff ar amcanion. Mae'r amser a dreuliwyd yn sefydlu a datblygu'r sefydliad wedi'i ddyrannu yn erbyn amcan 10. Ni fydd yr amser a ddosrannwyd i'r amcanion a ddaeth i lai nag 1% o'r cyfanswm amser yn cael ei gofrestru.

Gyda datblygiad rôl a swyddfa'r Comisiynydd, yn ystod 2002-03 cynhaliwyd adolygiad o'r amcanion a bennwyd yn 2001 – 2002 ac mae'r Comisiynydd wedi dod i'r casgliad fod yr amcanion uchod yn fwy cynrychioliadol o'i rôl a'i swyddogaeth.

Yn 2001-02 datgelwyd cyfanswm costau gweithredu o £706,000 yn erbyn yr amcan o "sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o swyddogaeth a phwerau Comisiynydd Plant Cymru". Nid yw'r costau a ddatgelwyd yn 2001-02 wedi cael eu hailddosrannu yn erbyn yr amcanion uchod gan na fyddai hyn, ym marn y Comisiynydd, yn rhoi cymhariaeth ystyrlon.

1. Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

1. Datganiad polisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a gyhoeddiir gan Drysorly Ei Mawrhydi. Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru isod. Fe'u defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod o bwys mewn perthynas â'r cyfrifon.

1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu trwy ailbriso asedau sefydlog lle bo hynny'n berthnasol, yn unol â'u gwerth i'r Comisiynydd trwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

1.2 Asedau sefydlog diriaethol

Mae'r Comisiynydd wedi priso'r holl asedau sefydlog ar gost hanesyddol gan nad yw unrhyw addasiadau ailbriso yn berthnasol, ym marn y Comisiynydd. Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol yw £1,000. Cafodd nifer fawr o'r un mathau o asedau eu grwpio gyda'i gilydd wrth benderfynu a oeddynt uwchben neu islaw'r trothwy.

1.3 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog diriaethol trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol yn ôl amcangyfrif. Mae eu hoes fel a ganlyn:

- Offer TG 3 blynedd
- Dodrefn 5 mlynedd
- Offer Swyddfa 5 mlynedd
- Gosodion a Ffidiadau 5 mlynedd

Hawlr dibrisiant blwyddyn lawn ym mlwyddyn eu caffael.

1.4 Gwariant gweinyddol

Mae'r costau gweinyddol yn adlewyrchu costau rhedeg swyddfa'r Comisiynydd fel y'u diffinnir dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol, ynghyd ag incwm cysylltiedig.

1.5 Gwariant rhaglen

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw wariant rhaglen.

1.6 Tâl cyfalaf

Cynhwysir tâl yn y costau gweithredu sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir gan y Comisiynydd. Cyfrifir y tâl ar gyfradd safonol y llywodraeth o 6 y cant mewn gwir dermau ar werth cyfartalog yr holl asedau llai ymrwymadau, ac eithrio balansau arian a ddelir yn Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol Ei Mawrhydi, ond nid oedd unrhyw falansau'n bodoli.

1.7 Treth ar Werth

Nid yw'r Comisiynydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir gwariant a phryniannau asedau sefydlog i gynnwys TAW, gan na ellir adennill y dreth.

1.8 Pensiynau

Gweinyddir y cynllun pensiwn a gynigir i bob aelod o staff gan yr Ymddiriedolaeth Bensiynau. Mae'n gynllun cyfranogol gyda chyfraniadau wedi'u pennu a chydnabyddir yr holl ymrwymadau ar ei gyfer yn ystod y cyfnod. Nid oes unrhyw ymrwymadau i'w hystyried yn y dyfodol ar gyfer y cynllun.

1.9 Prydlesau gweithredol

Cofnodir rhenti prydlesau gweithredol yn y Datganiad Costau Gweithredu mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

2. Niferoedd a chostau staff

a) Mae costau staff am y cyfnod 12 mis yn cynnwys:

	2002-2003	2001-2002
	£000	£000
Cyflogau	434	136
Costau Nawdd Cymdeithasol	42	14
Costau Pensiwn	4	4
	480	154

Mae cynllun yr Ymddiriedolaeth Bensiynau yn gynllun gyda'r cyfraniadau wedi'u pennu. Ar gyfer 2002-03 roedd cyfraniadau arferol gan y cyflogwr o £4,084 a chyfraniadau arferol gan y gweithwyr o £4,084 yn daladwy i'r cynllun sef cyfraniadau ar gyfradd o 5% gan y cyflogwyr a 5% gan y gweithwyr o dâl pensiynadwy. Ar gyfer 2001-02 roedd cyfraniadau arferol gan y cyflogwr o £3,791 a chyfraniadau arferol gan y gweithwyr o £3,791 yn daladwy i'r cynllun sef cyfraniadau ar gyfradd o 5% gan y cyflogwyr a 5% gan y gweithwyr o dâl pensiynadwy.

Nid oes unrhyw gyfraniadau heb eu talu neu wedi'u talu o flaen llaw adeg dyddiad y fantolen. Bydd y gyfradd gyfrannu o 5% yn parhau am y flwyddyn i ddod ar gyfer y cyflogwr a'r gweithiwr.

- b) Roedd cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth lawn-amser a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr) am y cyfnod fel a ganlyn:

2002-2003

Amcan 1	1
Amcan 2	3
Amcan 3	1
Amcan 4	3
Amcan 5	-
Amcan 6	2
Amcan 7	1
Amcan 8	-
Amcan 9	1
Amcan 10	4
Amcan 11	-
Amcan 12	-

Cyfanswm Nifer

16

Mae dosrannu'r costau gweithredu i amcanion wedi'i wneud yng nghyd-destun yr amser cymharol a dreuliwyd gan staff ar amcanion.

Yn 2001-02 cyfanswm nifer y staff a ddatgelwyd yn erbyn yr amcan o "sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o swyddogaeth a phwerau Comisiynydd Plant Cymru" oedd 3.6. Nid yw'r nifer staff a ddatgelwyd yn 2001-02 wedi cael ei ailddosrannu yn erbyn yr amcanion uchod gan na fyddai hyn, ym marn y Comisiynydd, yn rhoi cymhariaeth ystyrlon.

Mae dosraniad y cyfanswm niferoedd staff i amcanion wedi'i wneud yng nghyd-destun yr amser cymharol a dreuliwyd ar weithgareddau craidd gan staff gyda swyddfa'r Comisiynydd.

- c) Am y cyfnod 12 mis, roedd cyflogau rheolwyr uchaf y Comisiynydd Plant fel a ganlyn:

	Oedran	Ystod cyflog (fel a ddiffinnir isod) £000	Breintiau eraill i'r £100 agosaf	Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31 Mawrth 2003 £000
Peter Clarke - Comisiynydd Plant Cymru	54	70-75	7,800	0-5
Maria Battle - Is-Gomisiynydd a Dirprwy Gomisiynydd Plant	46	35-40	-	-
Rhian Davies - Is- Gomisiynydd Plant	45	35-40	100	0-5
Sara Reid - Is- Gomisiynydd Plant	41	35-40	-	-

3. Costau gweinyddol eraill

	2002-2003 £000	2001-2002 £000
Rhentu dan brydlesau gweithredol:		
- cerbydau	4	4
- adeiladau	51	17
Adeiladau eraill a chostau cysylltiedig	20	29
TG a thelathrebu	59	50
Cynnal swyddfeydd/cerbydau	10	8
Cyhoeddusrwydd/Hysbysebu/Cyfieithu	74	9
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch	39	14
Recriwtio	3	188
Tâl yr archwilydd	9	9
Gwariant arall	273	131
Eitemau anariannol:		
- dibrisiant	90	86
- colled ar werthu asedau sefydlog	2	-
- cost cyfalaf	8	7
	642	552

4. Asedau sefydlog

	Offer TG £000	Gosodion a Ffitiadau £000	Dodrefn ac Offer Swyddfa £000	Cyfanswm £000
Cost				
Ar 1 Ebrill 2002	78	142	158	378
Ychwanegiadau	9	9	7	25
Gwerthiannau	(8)	-	-	(8)
Ar 31 Mawrth 2003	79	151	165	395
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2002	26	28	32	86
Cofnodwyd mewn blwyddyn	27	30	33	90
Gwerthiannau	(3)	-	-	(3)
Ar 31 Mawrth 2003	50	58	65	173
Gwerth net ar bapur				
Ar 31 Mawrth 2003	29	93	100	222
Ar 31 Mawrth 2002	52	114	126	292

5. Symudiadau mewn cyfalaf gweithredu ac eithrio arian

	2002-2003 £000	2001-2002 £000
Cynnydd mewn dyledwyr	13	4
(Cynnydd) mewn credydwyr	(1)	(75)
	12	(71)

6. Blaendaliadau

	2002-2003 £000	2001-2002 £000
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn:		
Blaendaliadau	17	4
	17	4

7. Arian yn y banc ac mewn llaw

	2002-2003 £000	2001-2002 £000
Gweddill ar 1 Ebrill 2002	16	-
Mewn-lif arian net	7	16
Gweddill ar 31 Mawrth 2003	23	16

8. Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn

	2002-2003 £000	2001-2002 £000
Credydwyr masnach	22	32
Treth a nawdd cymdeithasol	14	13
Incwm gohiriedig a chroniadau	40	30
	76	75

9. Cysoni costau gweithredu net â newidiadau yn y gronfa gyffredinol

	2002-2003 £000	2001-2002 £000
Costau gweithredu net am y flwyddyn (Atodlen 2)	(1,122)	(706)
Ariannu net gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	1,063	936
Addasiadau anariannol:		
- cost cyfalaf	8	7
Cynnydd (gostyngiad) net yn y gronfa gyffredinol	(51)	237
Cronfa gyffredinol ar 1 Ebrill 2002	237	-
Cronfa gyffredinol ar 31 Mawrth 2003 (Atodlen 3)	186	237

10. Ymrwymadau dan brydlesau gweithredol

	2003 £000		2002 £000	
	Tir ac Adeiladau	Arall	Tir ac Adeiladau	Arall
Ar 2003 Mawrth 2000 roedd y Comisiynydd wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf yng nghyswllt prydlesau gweithredol yn dod i ben:				
- o fewn un flwyddyn	-	4	-	-
- rhwng dwy a phum mlynedd	-	4	-	9
- ar ôl pum mlynedd	51	-	52	-
	51	8	52	9

11. Deilliannau ac offerynnau ariannol

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grant gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer ei ofynion ariannol ac felly nid yw'n agored i risgiau o ran hylifedd. Nid oes ganddo ychwaith unrhyw adnau o bwys, ac mae pob ased ac ymrwymiad o bwys mewn sterling, ac felly, nid yw'n agored i risg sy'n gysylltiedig â'r gyfradd llog neu ag arian cyfred.

12. Ymrwymadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymadau cyfalaf ar 31ain Mawrth 2003.

13. Ymrwymadau annisgwyl

Mae'r Comisiynydd ar ganol cynnal yr Archwiliad cyhoeddus Clywch. Mae'r cyllid ar gyfer y gynrychiolaeth gyfreithiol wedi ei osod ac mae'r costau wedi'u cynnwys yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd unrhyw hawliadau gan gynrychiolwyr cyfreithiol am ffioedd uwchlaw'r costau sefydlog yn cael eu

cyfeirio at Farnwr Rhanbarth ar gyfer asesiad manwl ar ddiwedd y broses Archwilio. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl amcangyfrif gwerth yr ymrwymiad uwchlaw'r costau sefydlog.

14. Trafodion Partion Cysylltiedig

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti cysylltiedig. Mae'r Comisiynydd wedi cael nifer fechan o drafodion o bwys yn ystod y cyfnod gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid oes unrhyw un o'r staff rheoli allweddol wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion o bwys gyda Chomisiynydd Plant Cymru yn ystod y cyfnod.